

## Crynodeb Gwirio Ansawdd

Gwasanaeth preswyl anabledau dysgu,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan  
Dyddiad y gweithgarwch: 20 Ebrill 2021

Dyddiad cyhoeddi: 25 Mai 2021



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Cofnod o'r Canfyddiadau

## Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o wasanaeth preswyl anabledau dysgu yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu a'i reoli gan y bwrdd iechyd, ac mae'n cefnogi hyd at bum unigolyn ag anabledau dysgu ac anghenion iechyd corfforol cymhleth.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae Gwiriadau Ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn lleoliadau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol; atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn enwedig yn ymwneud â staffio) a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y trefniadau a roddwyd ar waith i ddiogelu'r staff a'r cleifion rhag COVID-19, ac yn ein galluogi i roi cyngor cyflym a chefnogol ar y dull o weithredu gwasanaethau'n ddiogel yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r Rheolwr Dros Dro a'r Uwch-nyrs ar 20 Ebrill 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y lleoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed o ganlyniad i COVID-19 i'r canlynol:
  - Yr amgylchedd ffisegol
  - Arferion, trefniadau ar gyfer ymweliadau a chadw mewn cysylltiad ag anwyliaid
  - Rheoli ymddygiad
  - Gallu'r cleifion i fynd am dro yn y gymuned/gadael y ward dros dro a mwynhau gweithgareddau a rhwydweithiau cymdeithasol (gan gynnwys absenoldeb ffurfiol lle mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn gymwys)?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ehangach

---

pan fydd angen?

- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfwriaeth DoLS, a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19. Gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i gael y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

### Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod ymweliadau wedi cael eu cyfyngu o ganlyniad i'r pandemig a'r angen i'r preswylwyr warchod eu hunain, a chawsom wybod bod hyn wedi bod yn anodd iawn i rai preswylwyr a'u perthnasau. Fodd bynnag, gwelsom fod ymweliadau wedi'u caniatáu yn ystod misoedd yr haf, pan oedd modd defnyddio'r ardd, a bod cyswllt rhithwir wedi cael ei ddefnyddio lle bynnag y bo'n bosibl. Cawsom wybod bod y canllawiau ar ymweliadau'n cael eu hadolygu ac y byddent yn cael eu llacio pan fyddai'n ddiogel gwneud hynny.

Dywedwyd wrthym fod y pandemig wedi cael effaith negyddol ar weithgareddau hefyd, gan fod gweithgareddau yn y gymuned, megis nofio, siopa ac ymweliadau, wedi'u hatal dros dro. Er gwaethaf hyn, roedd yn gadarnhaol clywed y staff yn disgrifio'r ffordd roedd gweithio'n agos gyda'r Therapyddion Galwedigaethol wedi golygu bod cynllun gweithgareddau pob preswlydd wedi cael ei addasu, megis defnyddio'r ardd fel grŵp neu ddefnyddio'r ystafell synhwyraidd ar sail un i un.

Gwelsom fod cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol wedi parhau drwy gydol y pandemig a dywedodd y staff wrthym fod presenoldeb yn dda yn y cyfarfodydd hyn. Roedd yn gadarnhaol nodi bod yr uned wedi mabwysiadu model gweithwyr cymorth gofal iechyd cyfunol<sup>1</sup>, a oedd yn galluogi'r aelodau hynny o'r staff i gyfrannu at y cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol yn seiliedig ar eu harbenigedd.

Gwnaethom ystyried y ffordd y cafodd anghenion corfforol y preswylwyr eu diwallu'n barhaus yn ystod y pandemig. Gwnaethom gadarnhau bod pob preswlydd wedi cael ei ddos cyntaf

---

<sup>1</sup> Mae'r model hwn yn galluogi gweithwyr cymorth gofal iechyd i hyfforddi mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau, megis ffisiotherapi a therapi lleferydd ac iaith, er mwyn diwallu anghenion y grŵp cleientiaid.

---

o'r brechlyn COVID-19, a bod pob un ond un o'r preswylwyr wedi cael eu harchwiliad iechyd blynyddol<sup>2</sup> gan eu Meddyg Teulu. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion iechyd a llesiant cyffredinol y preswylwyr yn cael eu diwallu. Rhoddodd yr uned wybod i ni y byddai'r archwiliad iechyd a oedd yn weddill yn cael ei gwblhau cyn gynted ag y byddai'r feddygfa'n ailgychwyn y gweithgareddau hyn.

Cadarnhaodd yr uned fod gan bob preswilydd basbort iechyd<sup>3</sup>, sy'n hybu gofal diogel ac unigol i'r rhai y gall fod angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal eilaidd, megis adran achosion brys yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym y byddai'r staff yn mynd gyda'r preswylwyr pe bai angen, a bod y tîm cyswllt gofal eilaidd yn darparu cymorth ychwanegol. Rôl y tîm hwn yw bod yn gyswllt rhwng yr uned a'r ward.

Mae'r uned yn gofalu am oedolion ag anghenion cymhleth, a all arwain at ymddygiadau heriol gan breswylwyr. Gwelsom fod yr uned yn dilyn model cymorth ymddygiad cadarnhaol<sup>4</sup>. Dywedodd y staff fod y mathau o ymyriadau a ddefnyddir wedi'u sefydlu ers tro ac mai'r opsiwn lleiaf cyfyngol gaiff ei ddefnyddio, a bod opsiynau amgen wedi cael eu hystyried yn y gorffennol. Cadarnhaodd y staff fod yr ymyriadau hyn wedi cael eu trafod yn llawn gan y tîm aml-ddisgyblaethol, a oedd yn cyfrannu at brosesau cynllunio gofal unigol.

Pwysleisiodd yr uned mai nod yr ymyriadau hyn yw osgoi ymddygiad hunan-niweidiol, cynnig budd synhwyraidd neu, yn achos defnyddio meddyginiaeth, targedu symptomau, yn hytrach na defnyddio'r dull hwn fel ffordd o atal unigolyn yn gorfforol. Gwnaethom nodi bod yr holl ymyriadau a digwyddiadau yn cael eu cofnodi a'u hadolygu yng nghyfarfodydd y tîm aml-ddisgyblaethol ac mewn cyfarfodydd rheoli ehangach, er mwyn helpu i ddysgu gwersi a myfyrio.

### **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom fod archwiliad amgylcheddol wedi cael ei gynnal yn ddiweddar a bod yr adran briodol wedi cael gwybod am y materion a nodwyd er mwyn gweithredu arnynt. Fodd bynnag, gwelsom fod nifer o feysydd naill ai'n aros i gael eu cwblhau neu'n aros am gyllid cyfalaf cyn y gellid dechrau gwaith adnewyddu. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff amserlenni addas eu pennu ar gyfer yr holl eitemau ar yr archwiliad, ac y cymerir camau priodol i fynd i'r afael â nhw.

---

<sup>2</sup> Mae gan bob unigolyn ag anabledd dysgu hawl i gael archwiliad iechyd blynyddol a all nodi cyflyrau iechyd nas canfuwyd yn gynnar, ac sy'n rhoi cyfle i'r unigolion drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt

<sup>3</sup> Mae pasbort iechyd yn darparu gwybodaeth bwysig am y claf ag anabledd dysgu, gan gynnwys y math o feddyginiaeth y mae'n ei gymryd, unrhyw gyflyrau iechyd presennol sydd ganddo, a'i hoff bethau, ei gas bethau a'r dulliau cyfathrebu sy'n well ganddo.

<sup>4</sup> Fframwaith sy'n canolbwyntio ar y person yw model cymorth ymddygiad cadarnhaol, sydd â'r nod o ddarparu cymorth hirdymor i bobl ag anabledd dysgu, gan gynnwys y rhai hynny â chyflyrau iechyd meddwl, sydd ag ymddygiadau heriol

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg. Gwnaethom adolygu systemau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol.

### **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod archwiliadau atal a rheoli heintiau misol wedi cael eu cynnal, a bod sgoriau cadarnhaol wedi'u nodi ym mhob maes. Roedd haparchwiliad COVID-19 dyddiol yn ategu hyn, a gwelsom ei fod wedi cael ei gwblhau'n gyson.

Cadarnhaodd y staff fod gan bob preswlydd ystafell wely unigol â chyfleusterau en-suite. Mae hyn yn sicrhau y gall y preswylwyr hunanynysu, os bydd angen. Yn ardaloedd cymunedol yr uned, dywedodd y staff wrthym fod amseroedd bwyta wedi cael eu gwasgaru fel y gellir cadw pellter cymdeithasol cymaint â phosibl, a bod y staff yn ystyried yr angen i gadw pellter cymdeithasol wrth drosglwyddo sifft ac yn ystod gweithgareddau.

Cawsom wybod ei bod yn ofynnol i bob aelod o'r staff gwblhau asesiad gwirio symptomau cyn dechrau ei sifft. Ers mis Chwefror 2021, roedd pob aelod o'r staff wedi bod yn gwneud profion llif unffordd ar gyfer COVID-19 ddwywaith yr wythnos, sy'n helpu i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn yr uned. Cadarnhaodd y staff fod digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gael, a'u bod wedi cael hyfforddiant ar sut i wisgo a diosg PPE.

Cadarnhaodd yr uned nad oedd neb wedi cael ei dderbyn na'i ryddhau yn ddiweddar, ond gwelsom fod gweithdrefn ar waith i'r staff ei dilyn petai unigolion newydd yn cael eu derbyn neu eu rhyddhau yn ystod y pandemig. Roedd y weithdrefn hon yn cynnwys llwybrau lleol clir i'r staff eu dilyn er mwyn rheoli achos COVID-19 positif. Cafwyd un achos o COVID-19 ers dechrau'r pandemig, ac nid oedd unrhyw heintiau nac achosion o COVID-19 pan gynhaliwyd y gwiriad ansawdd.

**Ni nodwyd unrhyw welliannau.**

## Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff ar gael sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a'u bod yn gallu cysylltu â gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol eraill pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

---

## **Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom gadarnhau bod preswylwyr a oedd yn destun Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)<sup>5</sup> wedi cael asesiadau amserol a oedd yn gyfredol, yr oedd y mwyafrif ohonynt wedi'u cwblhau'n rhithwir yn ystod y pandemig. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod hawliau'r preswylwyr yn cael eu diogelu, a bod gofal a thriniaeth yn cael eu rhoi er budd pennaf yr unigolyn hwnnw.

Gwelsom fod lefelau staffio y cytunwyd arnynt ar waith ym mhob rhan o'r gwasanaeth, a oedd yn cynnwys nyrs gofrestredig gymwysedig ar bob adeg. Gwnaethom gadarnhau bod rôl y rheolwr yn ychwanegol, a bod rôl y dirprwy reolwr wedi'i rhannu rhwng dyletswyddau gweinyddol a chlinigol.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn gwybod pa weithdrefnau i'w dilyn pe bai angen uwchgyfeirio unrhyw bryderon staffio, ac roeddent yn gallu disgrifio sut y cafodd y trefniadau staffio eu cynnal yn gyson drwy gydol y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddi staff cymunedol i weithio dros dro a defnyddio staff banc rheolaidd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y staff a ddefnyddir yn gyfarwydd â'r preswylwyr.

Nodwyd bod achosion o salwch ac absenoldebau staff a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig wedi effeithio ar lefelau staffio'r uned. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod aelodau'r tîm presennol o staff wedi gweithio sifftiau ychwanegol a chefnogi ei gilydd yn dda, a dywedodd y rheolwyr fod cysylltiad da rhwng y timau staffio. Roedd nifer bach o swyddi gwag yn yr uned, ond roedd yn gadarnhaol nodi bod y broses recriwtio yn mynd rhagddi.

Gwelsom fod yr uned yn darparu lleoliadau i fyfyrwyr nyrsio, a gwelsom enghreifftiau o adborth cadarnhaol a gafwyd gan y rhai hynny a oedd wedi cwblhau eu lleoliad yn yr uned.

## **Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom lefelau cymysg o gydymffurfiaeth mewn rhai meysydd hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r cleifion, yn arbennig: diogelwch tân, diogelu, atal a rheoli heintiau a rheoli ymddygiad cadarnhaol. Er ein bod yn cydnabod yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar rai opsiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb, dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff hyfforddiant, yn enwedig hyfforddiant y gellir ei gwblhau ar-lein, ei flaenoriaethu er mwyn cynnal gofal diogel ac effeithiol.

---

<sup>5</sup> Mae'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Nod y trefniadau diogelu yw sicrhau y gofelir am bobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai mewn ffordd nad yw'n cyfyngu'n amhriodol ar eu rhyddid

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.



# Cynllun gwella

Lleoliad: Gwasanaeth Anableddau Dysgu (Cyf: 20126)

Dyddiad y gweithgarwch: 20 Ebrill 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyf:	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff amserlenni addas eu pennu ar gyfer yr holl eitemau ar yr archwiliad amgylcheddol, ac y cymerir camau priodol i fynd i'r afael â nhw.	Safonau Iechyd a Gofal; 2.1	Bydd y Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu yn adolygu'r archwiliad amgylcheddol ac yn sicrhau y caiff amserlenni addas eu pennu ar gyfer yr holl eitemau ar yr archwiliad, ac y cymerir camau priodol i fynd i'r afael â nhw.	Rheolwr y Cartref	Diwedd Mehefin 2021  <b>Diweddariad:</b> Dyfarnwyd cyllid cyfalaf ym mis Ebrill 2021 ar gyfer dau brosiect i wella'r amgylchedd (gosod system offer codi uwchben newydd a gosod baddonau newydd). Mae'r Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu wrthi'n trafod dyddiadau dechrau â chontractwyr.
2	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff hyfforddiant, yn enwedig hyfforddiant y gellir ei gwblhau ar-lein, ei flaenoriaethu er mwyn cynnal gofal diogel ac effeithiol.	7.1	Bydd y Gyfarwyddiaeth Anableddau Dysgu yn adolygu cyfraddau cydymffurfio â hyfforddiant ac yn neilltuo amser penodol ar sifft i'r staff gwblhau hyfforddiant.	Rheolwr y Cartref	Diwedd Awst 2021

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith. Enw: John Carroll - Prif Nyrs ar gyfer Anableddau Dysgu Dyddiad: 13 Mai 2021